



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Sylwadau HMI o Heddlu Gogledd Cymru

Rwyf yn fodlon ar berfformiad cyffredinol Heddlu Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle mae angen i'r llu wella er mwyn darparu gwasanaeth sy'n gyson dda.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n dda o ran atal troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r llu'n deall y problemau sy'n peri'r pryder mwyaf i'r cyhoedd, ac yn defnyddio amrediad o ddulliau i'w trafod.

Rwyf yn fodlon ar y gwelliannau mae'r llu wedi'u gwneud i'w ymchwiliadau troseddau ers fy asesiad llynedd. Asesir digwyddiadau trwy'r cyswllt cyntaf, yn defnyddio proses sefydledig a strwythuredig. Dyrennir troseddau llai cymhleth i ymchwilwyr â'r sgiliau a phrofiad priodol, ac mae ansawdd ymchwiliadau canlynol yn dda.

Hefyd mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd yn y ffordd mae'n amddiffyn y rhai mwyaf hyglwyf. Mae gan y llu ddealltwriaeth dda o natur a graddfa hyglwyfder yng Ngogledd Cymru, a bydd y llu eisiau adeiladu ar y cyflawniad hwn trwy sicrhau bod swyddogion yn gweld pob cyfle i gadw pobl hyglwyf yn ddiogel wrth ymateb i alwadau am wasanaeth. Hefyd bydd y llu eisiau sicrhau y dyrennir yr holl ymchwiliadau arbenigol a mwy cymhleth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â throseddau rhywiol difrifol a cham-drin domestig â risg uchel, i ymchwilwyr â'r hyfforddiant neu brofiad sydd eu hangen.

Rwyf yn fodlon ar ymagwedd y llu tuag at fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae'n gweithio gyda sefydliadau partner i ddeall bygythion difrifol, er bod angen datblygu'r ymgysylltiad hwn ymhellach ar lefelau uwch. Mae'r llu'n blaenoriaethu grwpiau troseddau'n briodol, ac mae swyddogion yn eu rheoli tan nad ydynt yn cyflwyno bygythiad bellach. Mae gan y llu fentrau effeithiol i rwystro pobl rhag ymgysylltu â throseddoldeb trefnedig.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddealltwriaeth dda o'r galwadau cyfredol a rhai'r dyfodol am ei wasanaethau. Mae'r llu'n deall yr effaith y gallai adnoddau llai mewn sefydliadau eraill ei chael ar ei weithrediadau, a sut y gallai hyn newid disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y llu.

Rwyf wedi cael sicrwydd bod cynlluniau ariannol y llu wedi'u seilio ar ragdybiaethau cadarn sy'n cynnwys arbedion effeithlonrwydd gwell, costau llai a defnydd pwylllog o gronfeydd ariannol. Mae'n parhau i gyflawni arbedion trwy ddarparu rhai o'i wasanaethau ar y cyd â sefydliadau eraill. Byddai'n elwa o werthusiad hyd yn oed yn fwy llym o'i fuddsoddiadau a'i raglen newid.

Mae'r llu wedi bod yn araf i fuddsoddi mewn technoleg newydd. Er enghraifft, nid yw wedi darparu dyfeisiau symudol i'w staff rheng flaen eto. Rwyf yn falch bod gan y llu gynlluniau i unioni'r sefyllfa hon erbyn hyn, a fydd yn cyflwyno buddion ynghylch effeithlonrwydd i'r llu.

Mae'r llu wedi trafod bylchau o ran capasiti a galluogrwydd rhai meysydd arbenigol. Fodd bynnag, gallai gallu'r llu i gydweddu ei adnoddau â'r galw gael ei rwystro gan ei ddealltwriaeth anghyflawn o sgiliau a gwybodaeth gyfredol ei weithlu. Dylai'r llu barhau i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon fel mater o frys.

Mae'r llu'n ceisio adborth gan bobl Gogledd Cymru ac mae'n gallu nodi'r problemau sy'n cael yr effaith fwyaf ar eu canfyddiadau o driniaeth deg a pharchus. Mae ganddo raglen gynhwysfawr o weithredu sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal safonau derbyniol o ymddygiad i'r gweithlu, ac mae ganddo weithdrefnau fetio cadarn. Hefyd mae'n gweithredu lle mae'n amau bod camddefnydd o awdurdod er mwyn cael enillion rhywiol wedi digwydd (hynny yw, manteisio ar sefyllfa o bŵer er mwyn cam-fanteisio ar ddioddefwyr hyglwyf o droseddau). Fodd bynnag, mae gan y llu ddealltwriaeth gyfyng o risgiau i uniondeb y llu a gallai fod yn fwy rhyngweithiol o ran nodi camymddygiad a llygredd posibl. Hefyd mae ganddo gapasiti annigonol i nodi a delio â'r risgiau hyn.

Mae'r llu'n ymwybodol o bwysigrwydd a gwerth hyrwyddo lles o fewn y gweithlu ac mae'n gweithio i drefnu bod gwasanaethau cymorth ar gael yn gyffredinol i swyddogion a staff.

I grynhoi, rwyf yn fodlon bod y llu'n darparu gwasanaeth da i bobl Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar ei berfformiad lle hoffwn weld gwelliant.

Cyd-destun

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae gan Ogledd Cymru lefel uchel o dlodi, er bod rhai ardaloedd mwy cefnog. Mae ardal y llu'n gartref i oddeutu 0.7 miliwn o bobl sy'n byw mewn sefyllfa wledig yn bennaf. Mae ei nifer o ardaloedd trefol unigryw a bach yn cynnwys tref Wrecsam.

Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd mawr iawn sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafniadaeth yn cynnwys 322 o filltiroedd o draffyrdd a chefnffyrdd, a phorthladd môr mawr hefyd.

Mae'r gyfran o ardaloedd yng Ngogledd Cymru y rhagwelir (ar sail dadansoddiad economaidd a demograffig manwl) y byddant yn cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar y cyfan nodweddir yr ardaloedd mwyaf heriol gan grynhoed uchel o bobl sy'n byw, gweithio, cymdeithasu, neu deithio yn yr ardal.

Mae nodweddion sy'n achosi a/neu'n awgrymu crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig a safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus, ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, cyfunir y nodweddion hyn. Mae ardal yr heddlu'n fawr iawn, o gymharu â lluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cymryd amser cymharol hir i deithio ar draws yr ardal ar y ffordd, sy'n cynyddu'r anhawster ynghylch darparu gwasanaethau heddlu.

Trefniadau gweithio

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio'n lleol gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r llu'n gweithio fel rhan o uned wrthderfysgaeth Cymru gyfan.

Mae'r cydweithrediad Ystadau Plismona Cymru'n paratoi opsiynau ar gyfer gwasanaeth ystadau ar y cyd ar gyfer plismona yng Nghymru, er mwyn lleihau costau, gwella cadernid a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae'r llu'n cydweithredu ar ymateb i arfau tanio gyda Chwnstabiliaeth Sir Gaer.

Mae'r llu'n gweithio gyda Chwnstabiliaeth Sir Gaer a Heddlu Glannau Mersi i wella'r broses o rannu gwybodaeth trwy brosesau ar y cyd, a hwylusir gan blatfform TG a rennir. Hefyd mae'n rhoi terfyn ar gytundebau gyda'r lluoedd hyn ar wasanaeth fforensig a rennir.

Edrych ymlaen at 2017

Yn y flwyddyn sydd o'n blaen, bydd gen i ddiddordeb i weld sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb i'r asesiad hwn ac i'r meysydd gwella a nodwyd gan HMIC llynedd.

Bydd gen i ddiddordeb arbennig i weld:

- sut mae'r llu'n gwella ei ymagwedd tuag at gadw pobl hyglwyf yn ddiogel;
- sut mae'n gwella'r ffordd mae'n cydweddu ei adnoddau â'r galw mae'n ei wynebu;
- sut mae'n cynyddu ei gapasiti i ymchwilio i lygredd posibl; a
- sut mae'n trefnu bod gwasanaethau lles yn fyw hygyrch i'w weithlu.